



Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives



Medi-Rhagfyr 2025

Helpwch i gadw eich plentyn yn iach y gaeaf hwn - gwnewch yn siŵr ei fod yn cael ei frechu rhag y fflw.

Annwyl riant neu warcheidwad,

Bydd tîm nyrsio/imiwneiddio'r ysgol yn ymweld â'r ysgol i gynnig brechlyn fflw chwistrell trwynol i blant. Mae'r GIG yn argymhell y dylai pob myfyriwr o flwyddyn derbyn i flwyddyn 11 gael brechlyn rhag y fflw bob blwyddyn. Bydd eich ysgol yn gallu rhoi gwybod i chi am ddyddiad y brechlyn.

Mae'n bwysig iawn amddiffyn eich plentyn rhag y fflw i sicrhau ei fod yn aros mor iach â phosibl, gan fod COVID-19 a'r fflw yn debygol o gylchredeg y gaeaf hwn. Y brechlyn fflw gorau i'r rhan fwyaf o blant yw chwistrell trwy'r trwyn. Dyma'r brechlyn a fydd yn cael ei roi ar y diwrnod.

Er mwyn sicrhau bod y brechlyn yn addas i'ch plentyn, ac nad ydyn nhw'n colli allan, cymerwch amser i ddarllen y wybodaeth:



Yna, dychwelwch y ffurflen gydsyniad electronig cyn y dyddiad Brechu a gynnlluniwyd. Mae dolen ar y ffurflen i ddod o hyd i rif GIG eich plentyn. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu hyn at y ffurflen – gweler y ddolen isod am y ddolen i'r ffurflen E-gydsyniad:

<https://forms.office.com/e/VXGgohB5Jn>



Fel gwasanaeth, byddem yn ddiolchgar pe gallech gwblhau'r ffurflen gydsyniad a'i dychwelyd. Gofynnwn am gadarnhad os YDYCH yn rhoi eich cydsyniad, neu os NAD YDYCH, er mwyn sicrhau bod ein cofnodion yn dangos bod y gwasanaeth wedi'i gynnig i'ch plentyn/person ifanc.

Os hoffech ragor o wybodaeth am frechu rhag y fflw i blant, cysylltwch â'r nyrs ysgol neu'r tîm imiwneiddio, neu ewch i icc.gig.cymru/brechlynffliw.

Os yw eich plentyn yn absennol, yn sâl neu'n absennol ar ddiwrnod y brechlyn, PEIDIWCH â mynd â'ch plentyn at y Meddyg Teulu i gael ei frechu gan y byddwn yn dychwelyd am sesiwn arall.

Yr eiddoch yn gywir,

Nyrs / Ymgynghorydd

Gwybodaeth bwysig:

Ar ôl i chi ddychwelyd y ffurflen gydsyniad, rhwch wybod i'r ysgol cyn y sesiwn frechu os yw'r canlynol yn berthnasol:

- **os oes unrhyw newidiadau i iechyd eich plentyn, neu**
- **mae ei feddyginiaeth asthma wedi cynyddu, neu**
- **mae wedi cael steroidau a gymerir trwy'r geg ar bresgripsiwn, neu**
- **mae'n gwichian.**

Sylwch: Mae nifer fach iawn o blant na ddylai gael y brechlyn fflw trwy'r trwyn. Gweler y daflen wybodaeth am fwy o fanylion, neu ewch i icc.gig.cymru/brechlynffliw